Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

## Ysgol Gwynfryn
## Heol Y Meinciau
## Pontiets
## Llanelli
## Sir Gaerfyrddin
## SA15 5SN

## Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2018

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Gwynfryn

Lleolir Ysgol Gwynfryn ym mhentref Pontiets, yng Nghwm Gwendraeth, Sir Gaerfyrddin. Mae 64 disgybl rhwng 4 ac 11 oed ar y gofrestr. Addysgir y disgyblion mewn tri dosbarth oed cymysg.

Dros dreigl tair blynedd, mae tua 29% o’r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, ffigwr sydd yn uwch na chyfartaledd Cymru, sef 21%. Daw 39% o’r disgyblion o gartrefi ble siaredir y Gymraeg fel iaith yr aelwyd. Cymraeg yw prif gyfrwng yr addysgu a’r dysgu ac anelir at sicrhau bod pob disgybl yn rhugl yn y Gymraeg a’r Saesneg erbyn diwedd cyfnod allweddol 2. Mae bron pob disgybl o gefndir gwyn Prydeinig.

Mae gan tua 24% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol, sydd yn uwch na’r canran cenedlaethol, sef 19%. Ychydig iawn sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Penodwyd y pennaeth i’w swydd yn Ionawr 2011 a chafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf ym mis Mawrth, 2015. Ers 2012, daeth yr ysgol yn rhan o ffederasiwn ffurfiol gydag Ysgol Gynradd Carwe ac Ysgol Gynradd Ponthenri o dan un pennaeth gweithredol ac un corff llywodraethol.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae cwricwlwm eang a diddorol yn Ysgol Gwynfryn sy'n adeiladu'n synhwyrol ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau'r disgyblion wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Mae medrau siarad, gwrando, ysgrifennu a TGCh disgyblion yn dda, ac, ar y cyfan, mae ganddynt fedrau darllen a rhifedd addas.

Mae'r addysgu yn dda, ac mae gofal, cymorth ac arweiniad y staff yn datblygu medrau lles y disgyblion yn effeithiol. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol a brwdfrydig tuag at eu gwaith ac mae eu hymddygiad yn arbennig o dda. Maent yn canolbwyntio'n dda mewn gwersi ac yn gweithio'n ddiwyd am gyfnodau estynedig.

Mae arweinwyr wedi creu ethos llwyddiannus iawn o gydweithio ar draws tair ysgol y ffederasiwn. Maent wedi rhannu a datblygu nodau clir a gweledigaeth strategol pwrpasol. Mae prosesau hunanarfarnu yn effeithiol ac wedi eu seilio'n gadarn ar dystiolaeth eang. Gyda ambell eithriad, mae'r prosesau sicrhau gwelliant yn cael effaith gadarnhaol ar flaenoriaethau gwella'r ysgol.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Gwella medrau darllen disgyblion

A2 Herio disgyblion mwy abl er mwyn sicrhau eu bod nhw’n cyflawni cystal ag y gallent

A3 Sicrhau bod gweithdrefnau gwella ansawdd yn fwy effeithiol wrth wella deilliannau disgyblion a chryfhau’r ddarpariaeth

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Wrth gychwyn yn yr ysgol, mae medrau sylfaenol mwyafrif y disgyblion islaw'r hyn a ddisgwylir ar gyfer eu hoed. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd cadarn ac yn caffael medrau cyfathrebu Cymraeg rhugl a dealladwy mewn amser byr. Mae'r disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn cyflawni'n gadarn yn erbyn eu targedau personol.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu eu medrau llafar a gwrando yn dda. Mewn trafodaeth, mae'r rhan fwyaf yn gwrando'n barchus ar gyfraniadau eraill ac yn ymateb drwy ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau perthnasol. Wrth symud drwy'r cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn datblygu eglurder wrth siarad, gan ddefnyddio mynegiant a goslef, ac addasu iaith ar gyfer sefyllfaoedd penodol, er enghraifft wrth sôn am eu gwaith am gestyll a dreigiau. Mae llawer o ddisgyblion yn cofio, ac yn defnyddio, geirfa gyfoethog, er enghraifft geiriau fel 'boneddiges', am eu gwaith thema am gastell wrth ddwyn i gof stori'r dosbarth. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn cyflwyno gwybodaeth ar lafar yn drefnus, gan ymateb yn fanwl a dangos ymwybyddiaeth dda o'u testunau astudio, er enghraifft wrth gyflwyno eu barn am ddefnyddio cynnyrch masnach deg.

Erbyn Blwyddyn 2, gall y mwyafrif o ddisgyblion ddarllen yn briodol i'w hoed a'u gallu. Mae llawer yn trafod cynnwys eu llyfrau yn aeddfed, gan gyfeirio at ddigwyddiadau penodol neu eu hoff gymeriad. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn darllen yn addas, gan newid goslef eu llais yn briodol a dangos ymwybyddiaeth dda o atalnodi. Ar y cyfan, maent yn dangos dealltwriaeth o'r prif syniadau a manylion arwyddocaol mewn testunau gwahanol. Er hynny, mae ychydig o'r disgyblion yn ei chael yn anodd deall ystyr yr hyn maent wedi ei ddarllen. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, gall llawer o ddisgyblion gywain, galw i gof, a threfnu gwybodaeth yn dda, er enghraifft wrth ymchwilio i ffeithiau gwahanol am Lanelli neu wrth greu taflen wybodaeth am arlunydd enwog.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cyflwyno'u gwaith ysgrifenedig yn daclus ac mewn ffurfiau dealladwy. Maent yn ysgrifennu yn bwrpasol at wahanol ddibenion mewn ystod o gyd-destunau diddorol. Yn y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn ysgrifennu darnau difyr yn gynyddol gywir yn y Gymraeg, er enghraifft wrth berswadio pobl i fynd i gastell Gwynfryn. Wrth drosglwyddo i gyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu llawysgrifen daclus. Maent yn ysgrifennu cyfres o frawddegau yn y Gymraeg a Saesneg sy'n cyfleu ystyr yn glir, gan atalnodi'n gywir. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn ysgrifennu'n estynedig yn y ddwy iaith i ystod eang o bwrpasau. Er enghraifft, maent yn egluro'r rhesymau y mae eliffantod dan fygythiad o'u difodi yn eu gwaith themâu ac yn creu blog am drychineb corwynt Irma.

Mae medrau rhifedd y disgyblion yn datblygu'n dda ar draws y cyfnod sylfaen. Erbyn diwedd y cyfnod, mae llawer yn defnyddio medrau rhif yn effeithiol ac yn hyderus mewn amrywiol gyd-destunau ar draws y cwricwlwm. Maent yn defnyddio eu medrau data a medrau mesur yn dda, er enghraifft wrth fesur a chofnodi pellter teithio gwrthrych sydd wedi ei saethu tuag at gastell. Yng nghyfnod allweddol 2, mae gan ran fwyaf y disgyblion fedrau rhifedd cadarn. Maent yn cymhwyso eu medrau'n

llwyddiannus wrth ddatrys problemau yn ymwneud â'u gwaith gwyddoniaeth, er enghraifft ynglŷn â thymheredd ac amser wrth ystyried ble fyddai'r lleoliad gorau i anifeiliaid yr Antarctig sefyll. Wrth ddadansoddi ymatebion o holiaduron mewn bas data am Lanelli, mae rhan fwyaf y disgyblion yn casglu gwybodaeth a chanlyniadau mewn modd systematig ac yn cyflwyno eu casgliadau yn gywir mewn graffiau. Fodd bynnag, yng nghyfnod allweddol 2, nid yw'r disgyblion mwy abl yn cymhwyso eu medrau rhifedd i'r un safon ar draws y cwricwlwm yn ddigon cyson.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn effeithiol. Maent yn defnyddio pecynnau TGCh i wneud cyflwyniadau deniadol o'u gwaith. Mae disgyblion y cyfnod sylfaen yn defnyddio'u medrau TGCh yn hyderus i atgyfnerthu eu medrau llythrennedd wrth recordio cerddi gan ddefnyddio llechi cyfrifiadurol. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn llunio a chwestiynu cronfeydd data yn bwrpasol ac yn creu cyflwyniadau amlgyfrwng deniadol. Mae'r rhan fwyaf yn defnyddio'r rhyngrwyd yn ddiogel ac effeithiol wrth chwilio am wybodaeth. Maent yn deall pwysigrwydd arbed ac adalw eu gwaith, ac yn gwerthfawrogi'r angen i ddefnyddio cyfrinair er mwyn gwarchod eu gwaith.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Da**

Mae bron pob disgybl yn mwynhau bywyd a gwaith yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf yn deall pwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach ac yn gwneud dewisiadau iachus. Mae'r gweithgareddau rhedeg milltir y dydd yn cael effaith gadarnhaol ar agweddau'r disgyblion tuag at weithgarwch corfforol ac ar fyw bywyd iach. Mae bron bob disgybl yn teimlo'n gwbl ddiogel yn yr ysgol ac maent yn hapus i drafod pryderon gydag aelodau staff, gan fod yn hyderus eu bod yn gwrando arnynt. Mae'r defnydd o raglen electronig, lle gall y disgyblion rannu eu teimladau mewn dull diogel â'r athrawon, yn gymorth i gefnogi lles emosiynol y disgyblion yn effeithiol.

Mae llawer o ddisgyblion yn meddu ar ddealltwriaeth fuddiol o sut i gadw'n ddiogel pan fyddant yn defnyddio'r rhyngrwyd. Gall y disgyblion hyn drafod pwysigrwydd peidio â datgelu eu hunaniaeth ar lein ac i gadw manylion cyswllt yn gyfrinachol.

Mae ymddygiad y rhan fwyaf o ddisgyblion yn arbennig o dda ac maent yn gwrtais a gofalgar tuag at eu cyfoedion ac oedolion. Mae'r disgyblion yn gefnogol iawn i'w gilydd ac yn cymryd eu cyfrifoldebau fel swyddogion ac arweinwyr gemau buarth o ddifrif. Mae rhan fwyaf y disgyblion hŷn yn garedig a meddylgar yn eu hymwneud â'r disgyblion iau. Maent yn gofalu amdanynt yn gyson drwy eu cynorthwyo a'u cysuro.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol a brwdfrydig tuag at eu gwaith. Maent yn canolbwyntio'n dda mewn gwersi ac yn gweithio'n ddiwyd am gyfnodau estynedig. Maent yn trafod eu gwaith yn ddeallus a hyderus, yn dangos mwynhad at eu dysgu ac yn barod iawn i drafod eu llwyddiannau gydag ymwelwyr. Mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth gadarn o drefniadaeth dosbarth o oedran cynnar iawn. Mae hyn yn eu galluogi i ymroi i'w tasgau'n syth ac i weithio'n bwrpasol ac annibynnol yn llwyddiannus.

Mae llais y disgybl yn bwysig yn yr ysgol ac mae rhan fwyaf y disgyblion yn falch iawn o'r cyfleoedd i ddatgan eu syniadau a'u barn. Mae llawer o ddisgyblion yn

gwerthfawrogi'r cyfle i gael mewnbwn i gynlluniau tymhorol y dosbarthiadau. Mae grwpiau o ddisgyblion yn cynrychioli barn yr holl ddisgyblion yn effeithiol ac yn gwneud penderfyniadau aeddfed am agweddau ar fywyd yr ysgol. Er enghraifft, mae'r cyngor ysgol yn llwyddo i wella adnoddau ffitrwydd ar y buarth ac yn cydweithio fel ffederasiwn i adolygu a chreu polisïau amrywiol, fel polisi gwrthfwlio a chyfle cyfartal.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Mae ansawdd yr addysgu'n dda. Mae perthynas weithgar a chefnogol rhwng y staff a'r disgyblion yn creu amgylchedd ddysgu gynhyrchiol. Mae pob un o'r athrawon yn rheoli eu hystafelloedd dosbarth yn effeithiol, gan hyrwyddo ymddygiad da ac annog y disgyblion i ddysgu. Mae bron pob aelod o staff yn fodel iaith gadarn ac yn hybu defnydd o'r Gymraeg gan y disgyblion yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu'n ddysgwyr dwyieithog cymwys a hyderus sy'n defnyddio ystod dda o eirfa ac ymadroddion. Mae rhan fwyaf o'r athrawon yn sicrhau rhediad priodol i'w gwersi sy'n arwain at lefelau ymrwymiad uchel ymysg y disgyblion. Maent yn holi'n fedrus i ymestyn dealltwriaeth disgyblion a datblygu eu medrau meddwl yn effeithiol. Gan amlaf, mae'r athrawon yn teilwra gweithgareddau dosbarth i fodloni anghenion disgyblion o bob gallu yn llwyddiannus. Fodd bynnag, nid yw ychydig o weithgareddau yn herio'r disgyblion mwy galluog, yn enwedig er mwyn iddynt ymestyn eu medrau darllen a rhifedd hyd eithaf eu gallu ar draws y cwricwlwm.

Ym mhob dosbarth, mae'r dull cyson o osod nodau clir i wersi, a'r meini prawf cysylltiedig, yn helpu disgyblion i ddeall yr hyn sydd angen iddynt ei wneud er mwyn creu gwaith o safon dda. Mae'r athrawon yn cynnig adborth amserol a defnyddiol i ddisgyblion yn ystod y wers, ac yn atgyfnerthu hyn gyda sylwadau ysgrifenedig ystyrlon yn eu llyfrau. Mae cyfleoedd buddiol a chyson i ddisgyblion roi adborth i'w gilydd a myfyrio ar ansawdd gwaith eu hunain. O ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion yn deall beth sydd angen iddynt wneud i wella ei gwaith ymhellach.

Mae'r cwricwlwm eang a diddorol yn adeiladu'n synhwyrol ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau presennol y disgyblion wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Mae'r athrawon a'r cymorthyddion yn cydweithio ar draws ysgolion y ffederasiwn er mwyn cynllunio'n effeithiol i gyflwyno'r cwricwlwm ac egwyddorion y cyfnod sylfaen, ac i ddatblygu medrau disgyblion trwy gyfrwng themâu diddorol. Mae'r themâu hyn yn adlewyrchu natur a chyd-destun lleol yr ysgol yn llwyddiannus. Maent yn hyrwyddo'r Gymraeg a Chymreictod yn effeithiol ym mhob agwedd o'u gwaith. Maent yn trefnu ymweliadau â'r ardal leol yn Llanelli i ymchwilio i ddefnydd pobl o'r cyfleusterau lleol, ac yn annog y disgyblion i astudio gwaith awduron neu artistiaid yn eu milltir sgwâr.

Mae egwyddorion y cyfnod sylfaen wedi eu gwreiddio'n llwyddiannus iawn. Mae pwyslais clir ar feithrin annibyniaeth a datblygu medrau disgyblion yn effeithiol trwy ddarparu profiadau ymarferol ac ysgogol, er enghraifft wrth iddynt wneud cawl Gŵyl Dewi. Mae'r athrawon yn gwneud defnydd synhwyrol o'r ardaloedd dan do a'r awyr agored i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd y disgyblion yn effeithiol. Enghraifft dda o hyn yw gwaith disgyblion y cyfnod sylfaen wrth iddynt chwilio am siapiau 2D yn yr awyr agored a chreu cestyll o ddeunydd 3D.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae gan yr ysgol systemau cadarn ar gyfer darparu cymorth yn gynnar i ddisgyblion sydd ag anghenion penodol ac er mwyn olrhain cynnydd disgyblion o'u mannau cychwyn yn effeithiol. Mae athrawon yn defnyddio'r wybodaeth yn bwrpasol er mwyn adnabod y disgyblion sydd angen cefnogaeth ychwanegol o ran llythrennedd, rhifedd a lles yn bwrpasol iawn. Maent yn defnyddio'r wybodaeth yn synhwyrol er mwyn adnabod cynnydd a safon gwaith pob disgybl. O ganlyniad, maent yn darparu rhaglenni ymyrraeth buddiol er mwyn sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu. Mae cynlluniau dysgu unigol a phroffiliau disgyblion yn cynnwys targedau cyraeddadwy, llais y disgybl a mewnbwn rhieni yn llwyddiannus.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau cryf a chefnogol gyda nifer o asiantaethau arbenigol, sy'n sicrhau cymorth ac arweiniad cynhaliol i ddisgyblion a rhieni. O ganlyniad, mae unigolion a theuluoedd yn derbyn gofal ac arweiniad effeithiol.

Defnyddir cymorthyddion dysgu yn effeithiol ar draws yr ysgol i gefnogi disgyblion unigol ac i weithredu ystod o raglenni llwyddiannus. Mae'r gefnogaeth yn cynorthwyo'r disgyblion i ymgysylltu'n dda â'u dysgu ac yn cyfrannu'n effeithiol at wella safonau a deilliannau. Mae'r ysgol yn rhoi pwyslais cryf ar ddatblygu anghenion emosiynol a chymdeithasol yr holl ddisgyblion ac mae rhaglen electronig yn cefnogi'r agwedd hon yn effeithiol.

Mae ffocws clir gan yr ysgol ar hybu ymddygiad da sy'n seiliedig ar barch, cwrteisi a goddefgarwch. Mae hyn yn amlwg yn y cyfleoedd a gynigir i ddisgyblion fyfyrio ar agweddau ysbrydol a moesol mewn gwasanaethau boreol ac mewn gwersi perthnasol. Mae'r ysgol yn hyrwyddo ymwybyddiaeth disgyblion o fyd gwaith yn effeithiol iawn drwy brosiectau cymunedol ar fusnesau lleol.

Mae perthynas gadarn yn bodoli rhwng yr ysgol a'r rhieni, gyda holl aelodau'r staff yn hybu diwylliant agored a chydweithredol, sy'n llwyddo i sicrhau ymrwymiad a chefnogaeth gynhwysfawr. Mae trefniadau llwyddiannus yn cynnwys anfon taflenni thema dymhorol i rannu gwybodaeth am waith y dosbarth, cynnal nosweithiau hyfforddiant defnyddiol a threfnu 'noson darllen ddifyr'.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau creadigol disgyblion yn effeithiol. Mae traddodiad cryf yn yr ysgol i sicrhau cyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan mewn cyngherddau, eisteddfodau lleol a pherfformio gyda chwmni drama adnabyddus. Mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at fagu hunanhyder disgyblion, yn ogystal â chynnig profiadau ysgogol a bythgofiadwy.

Mae cyfleoedd da i ddisgyblion ddatblygu eu hymwybyddiaeth a'u gwybodaeth o rannau eraill o'r byd a diwylliannau gwahanol trwy ddathliadau arbennig, fel diwrnod Tsieineaidd. Mae hyn yn sicrhau bod disgyblion yn gallu dangos empathi at fywydau pobl eraill, er enghraifft drwy'r gwaith helaeth am fasnach deg a chefnogi elusennau fel apêl y ffoaduriaid gan y Groes Goch, elusen Plant Mewn Angen a Cherdyn Coch i hiliaeth.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad cynaliadwy yn dda. Yn dilyn gwaith y pwyllgor eco, mae'r athrawon a'r disgyblion yn hybu cynaliadwyedd, fel ailgylchu papur a gweithio ar yr ardd, i feithrin dealltwriaeth am blannu a thyfu llysiau.

Mae gan yr ysgol ethos Cymreig naturiol, ac mae'r holl staff yn creu naws gadarnhaol sy'n hyrwyddo hyn yn llwyddiannus, gan ennyn brwdfrydedd disgyblion tuag at yr iaith. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y dimensiwn Cymreig yn gyffrous. Atgyfnerthir profiadau'n effeithiol drwy ddarparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion weithio gydag artistiaid lleol, trefnu ymweliadau hanesyddol a chynnal dathliadau blynyddol. Mae hyn yn codi ymwybyddiaeth a chynyddu diddordebau'r disgyblion yn nhraddodiadau, chwedlau, diwylliant a hanes yr ardal leol a Chymru gyfan yn llwyddiannus.

Mae trefniadau diogelu yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae arweinwyr wedi creu ethos o gydweithio ar draws tair ysgol y ffederasiwn yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae'r holl staff yn ymwybodol mai staff y ffederasiwn ydynt, ac nid ysgol benodol. Un o nodweddion blaengar y gyfundrefn hon yw bod staff yn gallu addysgu ar fyr rybudd yn unrhyw un o ysgolion y ffederasiwn heb i hyn amharu ar addysg y disgyblion. Mae hyn yn gryfder eithriadol. Mae strwythur staffio'r ffederasiwn yn galluogi'r athrawon a chynorthwywyr i ddatblygu dealltwriaeth gadarn o holl waith y tair ysgol. Mae arweinwyr a staff y ffederasiwn yn rhannu a datblygu gweledigaeth strategol a nodau clir yn fwriadus gyda holl gymuned y ffederasiwn.

Mae gan y pennaeth a'r penaethiaid cynorthwyol fedrau arwain cryf. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel, ac maent yn cefnogi ac arwain eraill yn effeithiol i godi safonau a hybu lles disgyblion. Mae arweinyddiaeth gadarn ar draws y ffederasiwn wedi llwyddo i greu ethos o gydweithio llwyddiannus ymysg staff y tair ysgol. Mae hyn yn cynnwys cydweithio effeithiol wrth gyd-gynllunio, asesu a chymedroli fel un corff o staff. Defnyddir rhwydwaith digidol Hwb yn bwrpasol er mwyn rhannu dogfennau ar draws y ffederasiwn. Fodd bynnag, nid oes gan yr arweinwyr drosolwg digon clir o ba mor effeithiol mae'r cynlluniau cwricwlaidd yn cael eu gweithredu yn y tair ysgol.

Mae gan y llywodraethwyr ddealltwriaeth gadarn o berfformiad yr ysgolion yn y ffederasiwn. Mae ganddynt gyfrifoldeb am agweddau penodol o flaenoriaethau'r ysgolion. Trwy gydweithio ag arweinwyr yr ysgol, arsylwi ar wersi a chraffu ar lyfrau, maent yn chwarae rôl weithredol ym mhrosesau hunanarfarnu'r ysgol. Defnyddiant y wybodaeth yn effeithiol wrth wneud penderfyniadau ac i osod cyfeiriad strategol clir i waith yr ysgol. Enghraifft o hyn yw'r modd mae'r llywodraethwyr wedi herio'r ysgol ynghylch y ddarpariaeth ac maent wedi cymryd penderfyniadau anodd er mwyn cynnal safonau. Fodd bynnag, nid ydynt wedi bod yn ddigon heriol wrth sicrhau bod disgyblion yn cyrraedd y lefelau uwch tros gyfnod o amser. Mae'r corff llywodraethol yn monitro'r gyllideb yn ofalus. Enghraifft o hyn yw'r modd maent wedi herio'r ysgol ynglŷn ag effaith y grant datblygu disgyblion ar bresenoldeb, prydlondeb a datblygu medrau bywyd disgyblion.

Mae prosesau hunanarfarnu'r ysgol yn effeithiol ac wedi eu seilio'n gadarn ar dystiolaeth eang, fel craffu ar waith disgyblion, arsylwi gwersi a holi barn disgyblion a rhieni. Ar y cyfan, mae'r adroddiadau sy'n dilyn y monitro a chraffu ar lyfrau yn nodi'r cryfderau'n glir. Fodd bynnag, nid ydynt bob tro'n adnabod yn gyson y camau nesaf i'w gwella. Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn rhoi darlun cynhwysfawr, gonest a chytbwys o gryfderau'r ysgol a'r agweddau sydd angen eu gwella. Mae cyswllt clir rhwng canfyddiadau'r hunanarfarnu a'r blaenoriaethau yn y cynllun datblygu ysgol.

Fodd bynnag, nid yw’r gweithgareddau gwella yn cael digon o effaith ar ddeilliannau disgyblion bob tro. Enghraifft o hyn yw’r ffaith bod gwella perfformiad disgyblion mwy abl a thalentog wedi ymddangos am nifer o flynyddoedd yn y cynllun datblygu.

Mae holl staff y ffederasiwn yn cydweithio’n effeithiol iawn â’i gilydd ac mae cyfleoedd gwerthfawr iddynt rannu profiadau ac arfer dda o fewn yr ysgol. Mae hyn wedi bod o gymorth i ysgafnhau baich gwaith athrawon a chyfoethogi profiadau disgyblion. Enghraifft benodol o hyn yw’r profiadau cyfoethog a chreadigol a gaiff disgyblion yn y cyfnod sylfaen.

Mae arweinwyr yn defnyddio adnoddau’n greadigol i gyfoethogi’r cwricwlwm a chodi safonau disgyblion. Maent yn cysylltu’r gwariant yn briodol â blaenoriaethau’r cynllun datblygu ysgol ac yn monitro’r cyllid yn ofalus i sicrhau gwerth am arian. Mae’r ysgol yn defnyddio ystod eang o grantiau’n fwriadus, gan gynnwys y grant datblygu disgyblion, i godi safonau a datblygu lles disgyblion. O ganlyniad, mae bron pob disgybl yn gwneud cynnydd priodol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 10/05/2018